# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2017**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

10/07/2017

## AGENDA

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 3. | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 7 Mawrth, 18 Mai a 13 Mehefin 2017 fel cofnodion cywir.

(Tudalennau 1 - 142)

| 4. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | DIWEDDARIAD Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn diweddariad gan y Prif Weithredwr.

| 7. | TROSGLWYDDIADAU CYFALAF |
|---|---|

7.1. **Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Cerbydau Newydd y Cyngor**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, Aelod Portffolio ar faterion Cyllid.

(Tudalennau 143 - 146)

7.2. **Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, Aelod Portffolio ar faterion Cyllid.

(Tudalennau 147 - 150)

| 8. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

Derbyn ac ystyried adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

(Tudalennau 151 - 192)

| 9. | STRATEGAETH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL POWYS |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Stephen Hayes, Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol i Oedolion a’r Cynghorydd Sir Rachel Powell, Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Plant, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Hamdden.

(Tudalennau 193 - 218)

| 10. | LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2016-17 |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau.

(Tudalennau 219 - 226)

| 11. | RHAGLEN TALIADAU AELODAU 2017- 18 |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau.

(Tudalennau 227 - 250)

| 12. | CYNGOR TREF Y TRALLWNG |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.

(Tudalennau 251 - 254)

| 13. | PROTOCOL AR GYFER CYFRANIADAU GAN Y CYHOEDD YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.

(Tudalennau 255 - 272)

| 14. | PENODIADAU I BWYLLGORAU |
|---|---|

Nodi'r penodiadau canlynol i Bwyllgorau a wnaed gan grwpiau gwleidyddol a chymeradwywyd gan y Swyddog Monitro o dan bwerau cyffredinol o ddirprwyaeth a roddwyd gan y Cyngor ar 15 Mai 2013:

Penodwyd y Cynghorydd Sir Iain McIntosh i Bwyllogr Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy gan y Grwp Ceidwadol i lenwi swydd wag.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Iain McIntosh i Bwyllgor y Ddeddf Trwyddedu 2003 gan y Grwp Ceidwadol yn lle'r Cynghorydd Sir Mark Barnes.

Penodwyd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt i Bwyllgor Craffu B gan y Grwp Democratiaid Rhyddfrydol yn lle'r Cynghorydd Sir Francesca Jump.

| 15. | PENODIADAU I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

Ystyried penodiadau i'r cyrff allanol:

Bwrdd Gofal a Thrwsio Powys – 1 Aelod
Cyngor Llyfrau Cymru – 1 Aelod
Pwyllgor Ymgynghorol Mordwyol Wy – 1 Aelod

(Tudalennau 273 - 278)

| 16. | GOHEBIAETH |
|---|---|

Ystyried llythyr gan y Lleng Prydeinig Brenhinol yn gofyn am gymorth gan y Cyngor ar gyfer ymgyrch "Count them in" y Lleng yn galw am newidiadau yng nghyfrifiad y DG i gasglu data ar lefel awdurdod lleol ynglŷn â maint ag anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog.

(Tudalennau 279 - 282)

| 17. | RHYBUDDION O GYNIGION |
|---|---|

17.1. **Rhybudd o Gynnig ar Ganolfannau Gwastraff ac Ailgylchu o'r Cartref**

Yn ystod ymgyrch etholiadol diweddar y cyngor sir bu nifer o drigolion yn datgan pryderon difrifol am y newidiadau i amseroedd agor a dull gweithredu'r Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu o'r cartref (HWRC's). Felly, rydym yn galw ar aelod porffolio perthnasol y Cabinet i gynnal adolygiad brys o sut y mae'r HWRC's yn cael eu rhedeg ar hyn o bryd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth cywir a phriodol.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

Eilydd: Cynghorydd Sir James Gibson-Watt

17.2. **Rhybudd o Gynnig - Taliadau yng Nghanolfannau Dydd Gofal Cymdeithasol**

Cyflwynwyd cynnydd o 50% yn y taliadau am brydau bwyd ac am fynychu canolfannau dydd gofal cymdeithasol ym Mhowys gan y Cabinet cyn diwedd y cyngor blaenorol ac *ar ôl* i'r Cyngor Sir osod ei gyllideb ar gyfer 2017 – 18. Rydym o'r farn bod y penderfyniad, a gymerwyd heb rybudd ymlaen llaw nac ychwaith ymgynghoriad gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr, yn gam-ddefnydd o'r broses ac rydym yn galw ar Gabinet presennol y Cyngor i adfer y taliadau i'w lefelau blaenorol ar unwaith.

Cynigydd: Cynghorydd Sir James Gibson-Watt

Eilydd: Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

17.3. **Rhybudd o Gynnig - Defnydd o Gerbyd gan y Cadeirydd**

Rydym yn galw ar y Cyngor i ddod â'r arfer o brynu neu brydlesu cerbyd i'w ddefnyddio gan y Cadeirydd i ben.

Cynigydd – Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan

Eilydd – Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 18. | CWESTIYNAU YN UNOL A'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

18.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

Sawl cyfarfod â gynhaliwyd rhwng Swyddogion Cyngor Sir Powys a chynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ynglyn â chreu dwy ysgol newydd yn y Trallwng yn lle ysgolion presennol Oldford, Ardwyn, Gungrog a Maesydre?

(Tudalennau 283 - 284)

18.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir John Morris**

Rydym wedi clywed trwy ddatganiad i'r wasg eich bod yn bwriadu adolygu'r penderfyniad i godi taliadau mewn 9 maes parcio ym mherchnogaeth y cyngor oedd am ddim yn flaenorol. Ar hyn o bryd mae anghysondeb ar draws Powys gyda rhai meysydd parcio gyda'r drefn talu ac arddangos a rhai am ddim. Er mwyn bod yn deg ac yn gyfartal i holl drethdalwyr Powys ac i gefnogi'r economi a fyddwch yn ymestyn eich cylch gwaith i adolygu polisi taliadau meysydd parcio ar draws Powys gyfan?

(Tudalennau 285 - 286)

18.3. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Emily Durrant**

Mae'r diffyg yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn cynrychiolaeth ddemocrataidd yng Nghymru yn arswydus. O'r 1,254 o Gynghorwyr newydd a etholwyd ym mis Mai, dim ond 359 oedd yn ferched. Mae hyn yn newid y cynrychiolaeth flaenorol o 26% i 27% o ferched - cynnydd sydd ar raddfa truenus yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r darlun ym Mhowys yn well. Erbyn hyn mae 31.5% o'r Cyngor yn ferched, sy'n dal i fod yn 20% yn brin o ran cydbwysedd ond mae'n werth dathlu'r cynnydd. Hoffwn longyfarch y cyngor ar benodi ei Arweinydd benywaidd cyntaf ac yn sgil hynny dyblu arweinyddiaeth fenywaidd y Cyngor o 9% i 18%.
(Ystadegau y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Casglwyd yn uniongyrchol ac o 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru, 2017')

Er hynny, dim ond 3 o ferched allan o 10 aelod sydd ar y Cabinet presennol.

Mae hyn yn codi cwestiwn i'r Arweinydd:

A allai Arweinydd y Cyngor fod wedi gwneud rhagor i sicrhau bod merched ym Mhowys yn cael eu cynrychioli'n deg ar y Cabinet?

(Tudalennau 287 - 288)

18.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adnoddau Dynol, TGCh a Chyfathrebu gan y Cynghorydd Sir Emily Durant**

Mae sefyllfa gweithlu'r cyngor ym Mhowys yn wahanol, er mae dal digon angen ei wneud. Er mai merched yw cyfran fwyaf y gweithlu ym Mhowys nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu o ran swyddi uwch - dynion sydd yn 59% o'r rolau ar gyfer uwch reolwyr ac yn uwch (Adroddiad Monitro SEP 2015-16)

Mae hyn yn codi cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cydraddoldeb:

A fydd y Cynghorydd James Evans yn ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb pŵer o fewn ei weithlu yn ystod ei dymor yn y swydd?

(Tudalennau 289 - 290)

18.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Plant, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Hamdden gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

'Rwyf i â thrigolion lleol yn falch o weld bod y cyngor yn ail-ymweld â'r penderfyniadau ar ganolfannau ailgylchu gwastraff a pharcio. A fydd Arweinydd y Cyngor yn agored i drafodaethau ar ail-ymweld â'r polisi i leihau oriau Llyfrgelloedd lle gall y cymunedau ddangos yr effaith ehangach ar wasanaethau'r cyngor os oes gostyngiad yn yr oriau?

(Tudalennau 291 - 292)

18.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Councillor Gareth Ratcliffe**

Yn dilyn cwestiynau a godwyd gan drigolion bod tâl yn cael ei godi arnyn nhw am rentu lein ddillad a'u bod yn gorfod rhannu gyda thenantiaid eraill, yn ogystal â gwasanaeth galwadau larwm nad oes ganddyn nhw wedi'i sefydlu ar fanylion eu rhent wythnosol, a all yr aelod portffolio darparu dadansoddiad o'r taliadau y gellir eu codi ar denantiaid y cyngor (yn cynnwys y gost) a sut y gallant optio allan o'r taliadau hyn os nad ydynt yn derbyn y gwasanaeth neu os nad ydynt am dderbyn y gwasanaeth fel rhan o'u rhent?

(Tudalennau 293 - 296)

18.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Graham Breeze**

Mae nifer o drigolion yn Ward Llanerchyddol Y Trallwng wedi lleisio pryderon am gau ysgol Iau a Babanod Ardwyn yn 2018 ac yn benodol am ddyfodol yr adeilad.

A all yr Aelod Portffolio amlinellu pa ystyriaethau a roddwyd i ddyfodol yr adeilad ar ol cau'r ysgol yn 2018, yn enwedig o ystyried bod gan yr adeilad statws Rhestredig Gradd II, mynediad cyfyngedig ac unrhyw effaith y gallai hyn ei gael ar y trigolion gerllaw?

(Tudalennau 297 - 298)

18.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Graham Breeze**

Mae rhai eiddo preswyl ym mherchnogaeth Cyngor Sir Powys yn ymddangos fel eu bod yn cael eu trin gydag ychydig iawn o barch gan y tenantiaid ac o ganlyniad maen nhw'n dirywio sy'n gost tymor hir i'r cyngor, tra ar yr un pryd yn achosi problemau ar gyfer tenantiaid gerllaw:

A all yr Aelod Portffolio amlinellu gweithdrefn y cyngor ar gyfer:

a. Adnabod eiddo sydd â phroblemau
b. A oes prosesau archwilio rheolaidd yn eu lle.
c. Pa gamau a gymerwyd yn erbyn tenantiaid sy'n achosi problemau yn ystod y 12 mis diwethaf?

(Tudalennau 299 - 300)

18.9. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir David Selby**

A all yr Aelod Portffolio gadarnhau pryd y bydd yr ardal agored a thir amwynder yn y Drenewydd yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Tref y

Drenewydd a Llanllwchaearn o dan y trefniadau Trosglwyddo Asedau i'r Gymuned?

(Tudalennau 301 - 302)

18.10. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad brys i effaith y toriadau ar y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref.

Beth yw amodau a sgop yr adolygiad a phryd bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi?

(Tudalennau 303 - 304)

18.11. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies**

Beth yw polisi'r Cyngor Sir ar ddefnyddio cyllidebau dirprwyedig Ysgolion i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr ac a yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw ysgolion yn y Sir sy'n gweithredu'r ymarfer yma, ac os felly, pa gyngor maen nhw wedi derbyn?

(Tudalennau 305 - 306)

18.12. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A all y Cabinet gwneud datganiad ar sut mae'n cyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor hwn fel rhan o'r Cyfamod Lluoedd Arfog?

(Tudalennau 307 - 308)

18.13. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Yn y Papur Gwyn o'r enw "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad" mae Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu yng nghwestiwn 25:

"Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol ddychwelyd i fath o system bwyllgor os mai hynny'n sy'n diwallu amgylchiadau lleol orau"

A oes gan y Cyngor unrhyw wybodaeth pryd y bydd hynny ar gael?

(Tudalennau 309 - 310)